








# SWYDDOG CEFNOGOL TALENT A PHRENTISIAETHAU

## PECYN GWYBODAETH AM Y SWYDD





PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH

CYNLLUN YFORY GRADDEDIGION GRADUATES

PROFIAD GWAITH

CYNGOR GWYNEDD

# SWYDDOG CEFNOGOL TALENT A PHRENTISIAETHAU

## YDYCH CHI...

Gyda diddordeb mewn datblygu talent, prentisiaethau neu pobl?

Yn berson brwdfrydig a phositif?

Eisiau gweithio mewn tîm hwyliog sydd yn hoffi trio pethau newydd?

Yn berson trefnus?

Yn gallu delio efo gwahanol bobl?

Gyda sgiliau cyfathrebu da?

Yn gallu rhoi cefnogaeth busnes a gweinyddol o'r safon uchaf?

**Os ydych chi yn ateb “YNDW” i rhai o’r pwyntiau uchod efallai mai hon yw y swydd i chi**

## BETH MAE RÔL SWYDDOG CEFNOGOL YN EI WNEUD?

**Efallai eich bod chi heb ystyried bod yn swyddog cefnogol or blaen ac eisiau deall mwy am y rôl yn gyffredinol cyn mentro dim pellach. Dyma chi dri ddisgrifiad o swyddog cefnogol:**

1. Mae swyddog cefnogol gyda sgiliau trefnus da ac yn gallu delio efo amryw o dasgau yr un pryd

2. Mae swyddog cefnogol yn hoffi trefnu gwahanol bethau ac gyda sgiliau TG da

3. Mae swyddog cefnogol yn hoffi siarad efo pobl ac yn gallu delio efo amryw o ymholiadau gwahanol

CYNGOR GWYNEDD

Dyma gyfle i chi weithio mewn swydd sydd yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Mae'n gyfle i chi weithio ar gynlluniau sydd yn agor drysau i unigolion talentog ac eu galluogi i wneud yr hyn y dymunem ei wneud efo'u bywydau a datblygu gyrfa gwerth chweil.





Dyma gyfle i chi weithio gyda arbenigwyr yn y maes talent a phrentisiaethau bob dydd i ddysgu pethau newydd. Mi gewch chi hefyd ddigon o gyfle i gwblhau cymwysterau, mynychu hyfforddiant a chymryd mantais o unrhyw gyfleoedd eraill sydd ar gael i ddatblygu eich hun.

Mae hon yn swydd allweddol o fewn y tîm. Mae ein gwaith yn rhan hanfodol o un o flaenoriaethau y Cyngor sef cynllunio'r gweithlu, sydd yn sichrau bod gennym y bobol iawn, efo'r sgiliau iawn, yn y llefydd iawn ar yr amser iawn. Mi fedrwch chi fod yn rhan bwysig o wireddu hynny.



Cyngor Gwynedd

# CYNNWYS


Cyflwyniad ........ 1

Y Swydd ........ 2

Trosolwg o'r Adran ........ 3

Trosolwg o'r Tîm ........ 4

I Orffen ........ 5




# CYFLWYNIAD

**Rydym yn gweithio'n galed i wneud yn siwr bod gennym y staff gorau posib. Ein nod yw denu pobl dawnus a thalentog i'r gweithlu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau i pobl Gwynedd.**

Mae'r Tîm Talent a Phrentisiaethau yn arwain ar gynlluniau sydd yn cefnogi hyn drwy adnabod, penodi a chefnogi pobl i wahanol feysydd a lefelau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn golygu ein bod ni angen datblygu ein talent mewnol ond hefyd denu talent newydd o'r tu allan. Mae gwaith dydd i ddydd y tîm yn cefnogi un o flaenoriaethau'r Cyngor, sef i gynllunio gweithlu addas, sydd, yn syml, yn edrych ar amryw o bethau gwahanol i sicrhau fod gennym y pobl iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn efo'r sgiliau iawn.

Dyma flas o'r rhai o'r cynlluniau rydym yn arwain arnynt - Mae ein Cynllun Prentisiaethau yn cynnig amryw o gyfleoedd gwahanol ar bob lefel cymhwyster ac mewn amryw o feysydd gwahanol. Mae'r **Cynllun Yfory** yn cynnig cyfleoedd ffantastig i raddedigion gael y cam cyntaf i'r byd gwaith. Mae ein cynllun P**rofiad Gwaith** yn cynnig cyfle i rywun gael blas o weithio yn y Cyngor am y tro cyntaf.

Dyma gyfle gwych i chi weithio o fewn tîm sydd yn torri tir newydd yn y maes talent a phrentisiaethau, sydd wir yn gwneud gwahaniaeth ac yn rhoi cyfleoedd o'r ansawdd uchaf i pobl ddatblygu. Os ydach chi wedi meddwl yr hoffech chi her newydd, neu wedi ysyired secondiad, ond yn fwy na dim yn angerddol am ddatblygu pobol i fod y gorau y gallent fod, mae'r cyfle yma yn berffaith i chi.

**Edrychaf ymlaen i ddarllen eich cais.**

Alun

**Alun Lloyd Williams**
Arweinydd Talent

# Y SWYDD

## BYDDWCH YN:

- Aelod allweddol o'r tîm Talent a Prentisiaethau fydd yn cefnogi ni i yrru y cynlluniau ymlaen dros y blynyddoedd nesaf
- Y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau mewnol ac allanol
- Darparu cefnogaeth busnes a gweinyddol o'r ansawdd uchaf ar gyfer ein cynlluniau
- Sicrhau bod y trefniadau ymarferol cadarn ac effeithiol mewn lle gan gynnwys cymryd rhan yn ein canolfannau recriwtio a digwyddiadau dros y flwyddyn
- Cefnogi ni wrth recriwtio, phenodi a chroesawu unigolion newydd ar y cynlluniau
- Cefnogi systemau, gweithdrefnau a threfniadau ar draws y gwahanol gynlluniau
- Cadw trefn dda o'r wybodaeth a data yr unigolion rheini sydd ar ein cynlluniau
- Cymryd cofndoion mewn cyfarfodydd

## GWYBODAETH:

- Mae'r cyflog ar raddfa S1 Pwynt 12 sef **£28,598.00**
- Mi fydd y cytundeb am **1 blwyddyn**
- Mi gewch chi **26.5 o ddiwrnodau gwyliau** dros flwyddyn
- Mi gewch chi hefyd **8 diwrnod o wyliau banc** yn ychwanegol



CYNGOR GWYNEDD

# TROSOLWG O'R ADRAN

**Mae'r Cyngor wedi ei rannu i 9 Adran gwahanol . Os fyddwch chi yn llwyddiannus, mi fyddwch chi yn gweithio yn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Ian Jones yw Pennaeth yr Adran. Dyma'r gwahanol wasanaethau o fewn yr Adran:**

**Dysgu a Datblygu'r Sefydliad** – Datblygu cyfleoedd dysgu, cymwysterau, hyfforddiant i gynghorwyr a staff, buddiannau staff, newid ymddygiad, cefnogi diwylliant, cwynion corfforaethol.

**Caffael** – cadw'r budd yn lleol, rheolaeth categori, e-gaffael.

**Cyfathrebu ag Ymgysylltu** – ymdrin â'r wasg, cyfathrebu mewnol, gwefan y Cyngor, ymgysylltu, cyfryngau cymdeithasol.

**Cyswllt Cwsmer** – Canolfan gyswllt Galw Gwynedd, Siopau Gwynedd, gwasanaeth cofrestru.

**Gwasanaethau Cefnogol** – gweinyddiaeth penodiadau, archebu nwyddau, argraffu, talu biliau, dosbarthu post.

**Democratiaeth ac Iaith** – Cefnogaeth i Aelodau, gweinyddu pwyllgorau, craffu, Hunaniaeth, cynllun iaith, cyfieithu.

**Iechyd, Diogelwch a Llesiant** – Iechyd a diogelwch, iechyd galwedigaethol, symud a thrin.

**Ymchwil a Gwybodaeth** – ymchwil, dadansoddi data, rheoli gwybodaeth, diogelu data, rhyddid gwybodaeth.

**Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol** – amodau gwaith, cyflog cyfartal, cyngor ar absenoldebau, disgyblaethu a chwynion, recriwtio pobl.

**Yn ogystal â'r gwaith dydd i ddydd, mae'r Adran yn arwain ar y prosiectau arloesol yma:**

- Cadw'r Budd yn Lleol
- Merched mewn Arweinyddiaeth
- Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb i sicrhau Tegwch i Bawb
- Enwau Llefydd Gymreig
- Hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor



CYNGOR GWYNEDD

# TROSOLWG O'R TÎM

**Mi fyddwch chi yn rhan o'r Tîm Talent a Phrentisiaethau.**

**Be sy'n Bwysig i'r tîm?**
Rôl y tîm yw arwain y cynlluniau isod sydd yn allweddol wrth sicrhau'r gweithlu gorau ar gyfer y dyfodol.

**Cynllun Prentisiaethau**
Pwrpas y Cynllun Prentisiaethau yw hyrwyddo prentisiaethau, recriwtio phenodi prentisiaid a sicrhau ansawdd y prentisiaethau rheini ar draws adrannau'r Cyngor.

**Cynllun Yfory**
Dyma gynllun graddedigion y Cyngor. Mae'n rhoi cyfle i raddedigion ddatblygu arbenigedd mewn maes allweddol a dod i ddeall mwy am weithio mewn llywodraeth leol.

**Cynllun Dysgu'n seiliedig ar waith**
Cynllun sydd yn cefnogi staff i gwblhau cymwysterau o pob lefel ac o fewn pob maes ar draws y Cyngor

**Cynllun Talent Mewnol**
Cynllun sydd yn datblygu cyfleoedd newydd i ddatblygu ein talent mewnol

**Cynllun Profiad Gwaith**
Cynllun sydd yn datblygu profiadau gwaith ar draws y Cyngor i pobol o bob oed, lefel a gallu

**Cynllun Ymgysylltu**
Cynllun sydd yn datblygu dulliau gwahanol i gyfathrebu ein cyfleoedd gyda grwpiau gwahanol gan gynnwys pobl ifanc, pobl di-waith neu rhywun sydd eisiau newid gyrfa.

## ROLAU O FEWN Y TÎM

Arweinydd

Uwch Swyddog x 2

Swyddog Marchnata ac Ymgysylltu

Swyddog Cefnogol

## DISGRIFIO Y TÎM

Geiriau sydd yn disgrifio y tîm

Cefnogol — Creadigol

Prysur — Barod am her

Mentrus — Hwyliog

## Y DYFODOL

Mae gweledigaeth y tîm ar gyfer y dyfodol yn un uchelgeisiol. Mae'r Cynllun Prentisiaethau a'r Cynllun Yfory wedi derbyn buddsoddiad sylweddol.

Erbyn diwedd 2025, gobeithio bydd bron i 100 o unigolion ar y gwahanol cynlluniau. Mae gennym hefyd nifer o brosiectau arloesol yr hoffem eu datblygu a mi fyddwch chi yn rhan bwysig o hynny.

# I ORFFEN...

## GAIR O GYNGOR

Mae'n bwysig fod eich cais yn canolbwyntio ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd, sydd yn y manylion person

Dylech edrych yn ofalus ar y Manylion Person i wneud yn siwr fod eich cais yn ateb y gofynion HAFNODOL ond hefyd eich bod yn ceisio cyfarch yr elfennau DYMUNOL os y medrwch chi

Gwnewch ychydig o ymchwil i mewn i'r Cyngor

Cofiwch sicrhau cywirdeb iaith, bod yn gryno, eglur ac i'r pwynt

Defnyddiwch ddigon o enghreifftiau

## LINCIAU DEFNYDDIOL

Safle Prentisiaethau

Safle Cynllun Yfory

Cynllun y Cyngor

## CYFWELIAD

Os byddwch yn llwyddiannus i gael ar y rhestr fer, mi fyddwch chi yn cael cyfweliad

Pwrpas y cyfweliad fydd sicrhau eich bod chi yn cael y cyfle i ddangos eich gallu a'ch diddordeb yn y maes

Mi fydd y cyfweliad yn cynnwys un tasg a cwestiynau

Peidiwch â phoeni, mi fyddwn ni'n cyflwyno'r cwestiynau yn llawn i chi cyn cychwyn i chi gael amser i feddwl am eich atebion

## CAMAU NESAF

Os yn llwyddiannus, mi fedrwch gychwyn y swydd yn syth neu ar ôl gweithio eich cyfnod rhybudd

# Pob lwc i chi



CYNGOR GWYNEDD










# TALENT AND APPRENTICESHIPS SUPPORT OFFICER

## JOB INFORMATION PACK





APPRENTICESHIPS. A GENIUS DECISION

CYNLLUN YFORY GRADDEDIGION GRADUATES

WORK EXPERIENCE

CYNGOR GWYNEDD

# TALENT AN APPRENTICESHIPS SUPPORT OFFICER

## ARE YOU...

Interested in developing talent, apprenticeships or people?

An enthusiastic and positive person?

Want to work in a fun team that likes to try new things?

An organized person?

Can deal with different people?

With good communication skills?

Able to provide top quality business and administrative support?

**If you answer "YES" to some of the points above this may be the job for you**

## WHAT DOES THE SUPPORT OFFICER ROLE DO?

**Maybe you haven't considered being a support officer before and want to understand more about the role in general before taking the plunge. Here are three descriptions of the role:**

1. A support officer has good organizational skills and is able to deal with several tasks at the same time

2. A support officer likes to organize different things and has good IT skills

3. A supportive officer likes to talk to people and can deal with a variety of different enquiries


CYNGOR GWYNEDD



This is an opportunity for you to work in a job that can make a difference to people's lives. It is an opportunity for you to work on schemes that open doors for talented individuals and enable them to do what they want to do with their lives and develop a worthwhile career.



Here is an opportunity for you to work with experts in the field of talent and apprenticeships every day and to learn new things. You will also have plenty of opportunity to complete qualifications, attend training and take advantage of any other opportunities available to develop yourself.



This is a key position within the team. Our work is an essential part of one of the Council's priorities which is workforce planning, which ensures that we have the right people, with the right skills, in the right places at the right time. You can be an important part of making that happen.

CYNGOR GWYNEDD

# CONTENT


Introduction ........ 1

The Job ........ 2

The Department ........ 3

The Team ........ 4

To Finish ........ 5




# INTRODUCTION

we work hard to make sure we have the best possible staff. Our aim is to attract gifted and talented people to the workforce in order to provide the best service to the people of Gwynedd.

The Talent and Apprenticeships Team leads on plans that support this by identifying, appointing and supporting people to different areas and levels across the Council. This means that we need to develop our internal talent but also attract new talent externally. The day to day work of the team supports one of the Council's key priorities, which is to have a suitable workforce, which simply looks at various different actions to ensure we have the right people in the right place at the right time with the right skills.

Here is a taste of some of the schemes we lead on - Our **Apprenticeship Scheme** offers various different opportunities at all qualification levels and in various different areas. The **Cynllun Yfory scheme** offers fantastic opportunities for graduates to get the first step into the world of work. Our **Work Experience scheme** offers an opportunity for someone to get a taste of working at the Council for the first time.

This is a great opportunity for you to work within a team that is breaking new ground in the talent and apprenticeships field, which really makes a difference and gives people the highest quality opportunities to develop. If you have thought you would like a new challenge, or have considered a secondment, but more than anything are passionate about developing people to be the best they could be, this opportunity is perfect for you.

**I look forward to reading your application.**

Alun

**Alun Lloyd Williams**
Talent Lead



CYNGOR GWYNEDD

# THE JOB

## YOU WILL:

- Be a key member of the Talent and Apprenticeships team who will support us in driving the plans forward over the next few years
- The first point of contact for internal and external enquiries
- Provide the highest quality business and administrative support for our schemes
- Ensure that the practical and effective arrangements are in place including participating in our recruitment centers and events over the year
- Support us in recruiting, appointing and welcoming new individuals onto the schemes
- Support systems, procedures and arrangements across the different plans
- Keep good order of the information and data of those individuals who are on our plans
- Taking minutes at meetings

## INFORMATION:

The salary will be on Grade S1 Point 12 which is **£28,598.00**

The agreement will be for **1 year**

You get **26.5 holiday days** over a year

You will also get an additional **8 days bank holiday**

# DEPARTMENT OVERVIEW

**The Council is divided into 9 different Departments. If you are successful, you will work in the Corporate Support Department. Ian Jones is the Head of Department. These are the different services within the Department:**

**Learning and Organisational Development** – Develop learning opportunities, qualifications, training for staff, staff benefits, behavior change, supporting culture, corporate complaints.

**Procurement** – keeping the benefit local, category management, e-procurement.

**Communication and Engagement** – dealing with the press, internal communication, the Council's website, engagement, social media.

**Customer Contact** – Gwynedd Call contact centre, Gwynedd Shops, registration service.

**Support Services** – appointment administration, ordering goods, printing, paying bills, delivering mail.

**Democracy and Language** – Support for Members, administration of committees, scrutiny, Identity, language scheme, translation.

**Health, Safety and Wellbeing** – Health and safety, occupational health, moving and handling.

**Research and Information** – research, data analysis, information management, data protection, freedom of information.

**Human Resources Advisers** – working conditions, equal pay, advice on absences, discipline and complaints, recruiting people.

**In addition to the day-to-day work, the Department leads on these innovative projects:**

- Keeping the Benefit Local
- Women in Leadership
- Implement the Equality Scheme to ensure Fairness for All
- Welsh Place Names
- Promote the use of the Welsh language within the Council's services

# TEAM OVERVIEW

**You will be part of the Talent and Apprenticeships Team.**

**What is Important to the team?**
The role of the team is to lead the plans below which are key in securing the best workforce for the future.

**Apprenticeship Scheme**
The purpose of the Apprenticeship Scheme is to promote apprenticeships, recruit and appoint apprentices and ensure the quality of those apprenticeships across the Council's departments.

**Cynllun Yfory Scheme**
This is the Council's graduate scheme. It gives graduates the opportunity to develop expertise in a key area and gain a greater understanding of working in local government.

**The work-based Learning Scheme**
A scheme that supports staff to complete qualifications at all levels and within all areas across the Council

**Internal Talent Scheme**
A plan that develops new opportunities to develop our internal talent

**Work Experience Scheme**
A scheme that develops work experiences across the Council for people of all ages, levels and abilities

**The Engagement Plan**
A plan that develops different methods to communicate our opportunities with different groups including young people, unemployed people or someone who wants to change career.

## ROLES WITHIN THE TEAM

Lead

Senior Officer X2

Marketing and Engagement Officer

Support Officer

## DESCRIBING THE TEAM

Words that describe the team

Supportive

Creative

Busy

Ready for a challenge

Venturous

Happy

## THE FUTURE

The team's vision for the future is an ambitious one. The Apprenticeship scheme and the Cynllun Yfory scheme have received significant investment.

By the end of 2025, hopefully there will be almost 100 individuals on the different plans. We also have a number of innovative projects that we would like to develop and you will be an important part of that.

# TO FINISH...

## WORDS OF ADVICE

It is important that your application focuses on information relevant to the job, which is in the person details.

You should look carefully at the Personal Details to make sure that your application meets the ESSENTIAL requirements but also that you try to address the DESIRABLE elements if you can

Do some research into the Council

Remember to ensure correct language, be concise, clear and to the point

Use plenty of examples

## USEFUL LINKS

**Apprenticeship Site**

**Cynllun Yfory Site**

**The Council's Plan**

## INTERVIEW

If you are successful in getting shortlisted, you will have an interview

The purpose of the interview will be to ensure that you have the opportunity to demonstrate your ability and interest in the field

The interview will include one task and questions

Don't worry, we'll present you with the questions in full before you start so you have time to think about your answers

## NEXT STEPS

If successful, you can start the job immediately or after working your notice period

# Good luck to you